


# Polisi Addysg Ddewisol yn y Cartref

2020-21



# CYNGOR DINAS CASNEWYDD – GWASANAETH ADDYSG

## Polisi Addysg Ddewisol yn y Cartref

### 1. Diben

1.1 Mae'r polisi hwn yn rhoi arweiniad i ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ynglŷn â rhieni/gofalwyr sy'n dewis addysgu eu plant gartref. Mae'n egluro cyfrifoldebau Awdurdod Lleol Cyngor Dinas Casnewydd a phenaethiaid/ athrawon â chyfrifoldeb.

### 2. Cyflwyniad a chyd-destun

2.1 Ym mis Ebrill 2010 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) ganllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag methu addysg.

2.2 Mae Adran 7 Deddf Addysg 1996 yn dweud ei fod "yn ddyletswydd ar rieni pob plentyn o oedran ysgol gorfodol i beri iddo/iddi dderbyn addysg llawn amser effeithlon sy'n addas i'w (h)oedran, gallu a thueddfryd ac i unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddo/ganddi naill ai trwy fod yn bresennol yn yr ysgol neu fel arall". Mae'r rhan fwyaf o rieni'n cydymffurfio â'r ddyletswydd hon drwy anfon eu plant i'r ysgol.

2.3 Fodd bynnag, mae rhai rhieni'n penderfynu bod addysg ddethol yn y cartref yn opsiwn mwy addas i'w plentyn. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cefnogi hawl rhieni i addysgu eu plentyn yn y cartref.

2.4 Mae addysg yn y cartref yn agwedd allweddol ar ddewis rhieni ac mae'n ddewis dilys ochr yn ochr â'r opsiwn i anfon plentyn i'r ysgol, yn amodol ar y rhieni'n darparu addysg sy'n addas i oedran, gallu a thueddfryd y plentyn.

### 3. Dewis addysgu plentyn yn y cartref:

3.1 Mae'n ofynnol i addysgwyr yn y cartref, o dan Adran 7 Deddf Addysg 1996 i ddarparu "addysg addas llawn amser effeithlon". Nid oes diffiniad o "addysg addas llawn amser effeithlon, fodd bynnag fel canllaw, dylai baratoi'r plentyn at fywyd mewn cymdeithas fodern a'i alluogi i gyrraedd ei lawn botensial. Fel canllaw i arfer da dylai gynnwys:

- Cwricwlwm eang a chytbwys.
- Cymraeg/Saesneg, mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).
- Cyfleoedd am ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol, ysbrydol a diwylliannol.
- Gwybodaeth berthnasol i alluogi'r plentyn/ person ifanc i wneud dewisiadau addas am ei fywyd a'i ddyfodol.

Disgrifiwyd y term 'effeithlon' mewn cyfraith achosion fel addysg sy'n "cyflawni'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni".



3.2 Cydnabyddir bod addysgwyr yn y cartref yn dod o bob cefndir cymdeithasol, economaidd, hiliol a chrefyddol.

3.3 Nid oes gofyn i rieni/addysgwyr yn y cartref fod ag unrhyw gymhwyster neu hyfforddiant ffurfiol i addysgu eu plentyn yn y cartref, ac nid oes unrhyw rwymedigaeth i chwilio am diwtoriaid neu eu recriwtio i gefnogi dysgu eu plentyn yn y cartref.

3.4 Nid oes gofyn i rieni/ addysgwyr yn y cartref addysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol oherwydd ei fod yn berthnasol i ysgolion y wladwriaeth yn unig. Fel addysgwr yn y cartref ei ddewis ef yw pa feysydd gwaith a gwblheir. Nid oes gofyn glynu at oriau, diwrnodau neu dymhorau ysgol neu ddilyn amserlen benodedig. Hefyd nid oes gofyn i rieni asesu eu plant.

3.5 Mae'r gyfraith yn gofyn i blentyn gael ei addysgu o ddechrau'r tymor sy'n dilyn ei benblwydd yn bump oed tan y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan fydd yn cyrraedd 16 oed.

3.6 Bydd rhieni'n gyfrifol am bob goblygiad ariannol addysgu yn y cartref, gan gynnwys llyfrau, adnoddau; costau cyfarpar ac arholiadau.

3.7 Cyfeiriwch at adran 13 y polisi hwn ynglŷn â chyfrifoldebau diogelu.

3.8 Gall disgyblion sy'n cael eu haddysgu yn y cartref sefyll arholiadau CBAC fel ymgeiswyr allanol mewn gwahanol ganolfannau arholi, er enghraifft eu hysgol neu eu coleg lleol. Gellir cael cymorth ynglŷn â chanolfannau cymeradwy gan y Pennaeth Addysg Cynorthwyol (Ymgysylltu a Dysgu) (Atodiad 1).

#### **4. Cydsyniad i addysg yn y cartref:**

4.1 Mae gofyn i rieni sy'n dewis addysgu eu plentyn yn y cartref ystyried y canlynol:

1. Cyflwyno cadarnhad ysgrifenedig o'u bwriad i addysgu yn y cartref, gan roi gwybod i'r pennaeth am y rheswm dros y penderfyniad, y dyddiad pan fydd yn newidiadau'n dod i rym, amlinelliad byr o'r ddarpariaeth addysgol i'w rhoi ar waith a manylion o'r prif leoliad lle y caiff yr addysg ei darparu. Bydd y Pennaeth wedyn yn rhoi gwybod i'r Pennaeth Addysg Cynorthwyol (Ymgysylltu a Dysgu) am y cais hwn.
2. Os nad yw'r plentyn erioed wedi mynychu ysgol, dylent roi gwybod i'r Awdurdod Lleol o'u penderfyniad.
3. Os yw'r plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol arbennig, mae'n rhaid ceisio cydsyniad ysgrifenedig y Pennaeth a'r Pennaeth Addysg Cynorthwyol (Ymgysylltu ac Addysgu) ar gyfer yr Awdurdod Lleol cyn dadgofrestru.
4. Os oes gan y plentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, caiff y rhieni eu cynghori i geisio cyngor gan y pennaeth a'r Cydlynnydd ADY i sicrhau y gellir bodloni anghenion y plentyn





5. Os yw'r plentyn yn hysbys i Wasanaethau Plant, yn blentyn cofrestredig ar y gofrestr amddiffyn plant neu wedi'i restru fel plentyn mewn angen, bydd yr Uwch Swyddog Lles Addysg yn cysylltu â chydweithwyr yn yr adran Gwasanaethau Plant i geisio eu barn broffesiynol ar y cais cyn derbyn dadgofrestru'r plentyn o gofrestr yr ysgol.

4.2 Bydd rhai rhieni'n dewis peidio â rhoi gwybod i'r awdurdod lleol os ydynt yn addysgu eu plant yn y cartref. Caniateir hyn o fewn deddfwriaeth bresennol. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt roi gwybod i'r ysgol y mae'r plentyn neu blant ar y gofrestr ynddi.

4.3 Ni chaiff plant na fuont erioed yn y system addysgu ffurfiol ac sy'n cael eu haddysgu'n ddewisol yn y cartref eu cofrestru ar gofnod yr Awdurdod Lleol o unigolion sy'n cael eu haddysgu'n ddewisol yn y cartref. Fodd bynnag, os bydd y rhieni yn cytuno, pan ddaw'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol o blant sy'n cael eu haddysgu'n ddewisol yn y cartref, bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cwblhau gwiriad lles a chaiff y plentyn ei ychwanegu i gofrestr yr Awdurdod Lleol.

## 5. Cyfrifoldeb yr ysgol:

5.1 Wrth dderbyn cadarnhad ysgrifenedig gan riant/gofalwr yn dangos eu bwriad i addysgu yn cartref, mae'n ofynnol i bennaeth yr ysgol gofrestredig, ar ran y corff llywodraethu, o fewn 10 diwrnod gwaith, i:

- Roi gwybod i'r awdurdod lleol o fwriadau'r rhieni
- Mae gofyn i Benaethiaid roi gwybod i'r awdurdod lleol am benderfyniad y rhieni i ddewis addysgu yn y cartref
- Mae gofyn i benaethiaid roi gwybod i'r awdurdod lleol o unrhyw bryderon ynglŷn penderfyniad y rhieni i addysgu'n ddewisol yn y cartref
- Dileu enw'r plentyn o gofrestr yr ysgol
- Diweddarau'r wefan *School 2 School* gyda'u ffeil trosglwyddo cyffredin (CTF)

## 6. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol:

6.1 Ni all Cyngor Dinas Casnewydd ymyrryd yn newis y rhieni i addysgu eu plentyn yn y cartref (oni bai ei fod yn gofrestredig mewn ysgol arbennig; mae gan y disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig; mae'n gysylltiedig â thimau'r Gwasanaethau Plant neu os cadarnhawyd nad oes unrhyw addysg briodol ar waith).

6.2 Bydd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol (Ymgysylltu a Dysgu) yn cydnabod bwriad y rhieni i addysgu'r plentyn yn y cartref o fewn 10 diwrnod o dderbyn y llythyr.



6.3 Mae'n ofynnol i'r Pennaeth Addysg Cynorthwyol (Ymgysylltu a Dysgu) ystyried ac adolygu goblygiadau'r cais i addysgu yn y cartref os bydd gan y plentyn ddatganiad neu os yw wedi'i gofrestru mewn ysgol arbennig.

6.4 Bydd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol (Cynhwysiad) a/neu gynrychiolydd yn ymdrechu i drefnu cyfarfod â'r rhieni a/neu gydweithwyr perthnasol eraill, mewn lleoliad y cytunwyd arno o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y llythyr. Yn y cyfarfod bydd yn trafod ac yn ystyried goblygiadau dadgofrestru'r disgybl os oes gan y plentyn ddatganiad neu os yw wedi'i gofrestru mewn ysgol arbennig ac yn cwblhau'r ffurflenni addysg yn y cartref cychwynol gyda'r swyddog lles addysg perthnasol.

6.5 Mae lles ac anghenion y plentyn yn hollbwysig. Felly pan dderbynnir unrhyw gais gan rieni plentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, neu sy'n blentyn mewn angen, bydd yr Uwch Swyddog Lles Addysg yn trafod hynny gyda chydweithwyr yn y Tîm Gwasanaethau Plant. Caiff penderfyniad a ddylid derbyn y dadgofrestru ei wneud yn dilyn yr ymgynghoriad hwn a rhoddir gwybod i'r rhieni yn unol â hyn.

6.6 Yn unol ag adrannau 437 a 443 Deddf Addysg 1996, caiff yr awdurdod ymyrryd os yw'n ymddangos nad yw'r plentyn yn derbyn addysgu llawn amser addas ac effeithlon.

6.7 Caiff gwybodaeth a ddarparwyd o sefydliadau perthnasol ei hanfon at ddysgwyr a addysgir yn ddewisol yn y cartref trwy'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth, cyngor a'r gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth gan Gyrfa Cymru a'r Gwasanaethau Iechyd (yn benodol nyrs yr ysgol), fel yr argymhellir yng nghanllaw Cynhwysiad a Chymorth i Ddisgyblion Cynulliad Cymru.

### **Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig**

7.1 Mae'n rhaid i rieni sy'n ceisio addysgu plentyn yn y cartref, ac yntau'n gofrestredig mewn ysgol arbennig gael cydsyniad ysgrifenedig gan y Pennaeth a'r Pennaeth Addysg Cynorthwyol (Cynhwysiad) Dysgu cyn eu tynnu allan o'r ysgol. Caiff y penderfyniad ei hysbysu yn dilyn trafodaethau gyda'r Gwasanaethau Plant ac asiantaethau perthnasol eraill.

7.2 Gellir tynnu disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig eu tynnu allan o'r ysgol i gael eu haddysgu yn y cartref. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau y bodlonir anghenion y plentyn, caiff rhieni eu cynghori i geisio rhagor o wybodaeth gan y pennaeth neu Gydlynedd AAA yr ysgol gofrestredig.

7.3 Mae'r awdurdod yn parhau â'i rwymedigaeth statudol i gefnogi rhieni yn adolygiad blynyddol y datganiad. Bydd Swyddog Rhoi Datganiadau'r Awdurdod Lleol yn cysylltu â'r rhieni pan fydd yr adolygiad ar fin cael ei wneud.



## 8. Cronfa ddata

8.1 Bydd yr awdurdod yn cadw cronfa ddata o bob plentyn y maent yn cael gwybod eu bod yn cael eu haddysgu yn y cartref a bydd yn adrodd ar y data i Llywodraeth Cymru yn flynyddol fel rhan o gasglu data PLASC.

## 9. Rhannu gwybodaeth

9.1 Caiff gwybodaeth a ddarparwyd o sefydliadau perthnasol ei hanfon at ddysgwyr a addysgir yn ddewisol yn y cartref trwy'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth, cyngor a'r gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth gan Gyrrfa Cymru a'r Gwasanaethau Iechyd (yn benodol nyrs yr ysgol), fel yr argymhellir yng nghanllaw Cynhwysiad a Chymorth i Ddisgyblion Cynulliad Cymru.

## 10. Monitro ac adolygu

10.1 Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i sicrhau bod rhieni'n darparu "addysg llawn amser addas effeithlon". Er nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i rieni ymgysylltu â'r Awdurdod Lleol, byddai o bennaf les i'r plentyn i gadw cysylltiadau cyfathrebu ar agor. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cynnal gwiriadau lles blynyddol ar blant a phobl ifanc y mae'n hysbys eu bod yn cael eu haddysgu yn y cartref. Yn ystod yr ymweliad hwn caiff asesiad o addasrwydd yr addysg ei wneud.

10.2 Yn unol ag adrannau 437 a 443 Deddf Addysg 1996, caiff Cyngor Dinas Casnewydd ymyrryd os yw'n ymddangos nad yw'r plentyn yn derbyn addysg llawn amser addas ac effeithlon. O dan amgylchiadau eithafol, gellir cyflwyno Gorchymyn Presenoldeb Ysgol. Mae hyn yn roi 15 diwrnod i rieni ddarparu gwybodaeth fel y gofynnwyd amdani er mwyn rhoi tystiolaeth o'r gwaith a gwblhawyd er mwyn sicrhau addasrwydd eu haddysg. Byddai amgylchiadau eithafol yn cynnwys:

- Pan nad yw addysg yn effeithlon ac yn addas i oedran, gallu a thueddiad ac i anghenion addysgol arbennig ac mae'r sefyllfa hon yn annhebygol o gael ei datrys trwy ragor o ddeialog barhaus.
- Pan fydd yr awdurdod wedi gwneud pob ymdrech i gael gwybodaeth i gydymffurfio â'i ddyletswydd i'w fodloni bod addysg effeithlon a llawn amser yn cael ei darparu.

10.3 Pan fydd pryderon, bydd Swyddogion Lles Addysg yn ceisio penderfynu ar les y plentyn ac os yw'n blentyn sy'n methu agos (CME) yn unol â'r polisi a'r canllawiau CME, mae'n bosibl y ceisir opsiynau eraill a allai gynnwys cyflwyno Gorchymyn Presenoldeb.

10.4 Os bydd y rhieni'n methu bodloni'r awdurdod bod addysg addas yn cael ei darparu, gall fod yn ofynnol i'r rhieni, yn ôl y gyfraith "beri i'r plentyn fynd yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol brif ffrwd".



10.5 Os caiff gorchymyn presenoldeb ei gyflwyno mae gan y rhieni 14 diwrnod i apelio i'r llysoedd a gaiff gadarnhau, amrywio neu ddirymu'r gorchymyn.

## **11. Addysgu hyblyg**

11.1 Gellir ystyried ceisiadau am addysgu hyblyg, a fyddai'n galluogi plentyn i gael ei dynnu'n ôl o ysgol yn rhan amser, ond i fod yn bresennol ar ddiwrnodau penodol neu ar gyfer pynciau penodol. Cynghorir rhieni i gyflwyno eu cais yn ysgrifenedig yn disgrifio'r trefniant a fyddai'n well ganddynt. Wedyn cynhelir trafodaethau gyda'r ysgol i asesu pa mor hyfyw mae'r ceisiadau. Caiff rhieni wybod am y penderfyniad o fewn 15 diwrnod gwaith. Mae'n benderfyniad i'r ysgol a ydynt am gytuno i addysgu hyblyg i ddisgybl.

## **12. Monitro ac adolygu'r Polisi**

12.1 Caiff gweithredu'r polisi hwn ei fonitro gan y Prif Swyddog Addysg neu gan ei ch/gynrychiolydd.

12.2 Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol neu ar ôl deddfwriaeth berthnasol newydd.

## **13. Diogelu**

13.1 Mae lles ac amddiffyn pob plentyn o bryder hollbwysig ac mae'n gyfrifoldeb ar y gymuned gyfan. Os daw unrhyw bryderon o ran lles a diogelu'r plentyn i'r amlwg o ran plant neu deuluoedd a addysgir yn y cartref, dylid cysylltu â Gwasanaethau Plant yn yr ardal berthnasol ar unwaith. Dylid dilyn hwn gyda chyfeiriad ysgrifenedig lle y bo'n briodol.

13.2 Os bydd rhiant yn dewis cyflogi tiwtor fel addysgwr, mae'n gyfrifol am sicrhau bod y person yn ymgeisydd addas i gael mynediad i'w blentyn. Cyfrifoldeb y rhiant yw sicrhau y cwblheir y geiradaon a'r gwiriadau GDG priodol.



## **ATODIAD 1: Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC)**

### **Cwestiynau cyffredin ac atebion:**

#### **A yw'n gyfreithlon?**

Ydy, mae'n gyfreithlon dewis addysgu eich plentyn gartref. Nid oes angen i rieni fod yn athrawon cymwysedig i addysgu gartref.

#### **A gaf i gymorth ariannol?**

Cydnabyddir y bydd teulu sy'n addysgu gartref yn mynd i gostau ychwanegol wrth ddarparu'r adnoddau a'r cyfleoedd sydd fel arfer ar gael am ddim yn yr ysgol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod arian ar gael i gynorthwyo teuluoedd sy'n addysgu gartref gyda chostau, er enghraifft:

- TGAU neu gymwysterau eraill;
- cyrsiau Cymraeg i'r teulu;
- adnoddau dysgu megis gwerslyfrau a deunyddiau;
- tripiâu addysgol;
- meddalwedd dysgu; a
- chyfleusterau i'w defnyddio ar gyfer gweithgareddau grŵp

Gellir cyflwyno ceisiadau am yr arian hwn gan ddefnyddio'r ffurflen ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

#### **Oes angen i mi addysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol?**

Dim ond i ysgolion y wladwriaeth y mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn berthnasol. Fel addysgwr cartref, mater i chi yw pa feysydd gwaith sy'n cael eu cwblhau. Fodd bynnag, gall y Cwricwlwm Cenedlaethol fod yn sail dda i seilio eich rhaglen EHE arni. Nid yw'n ofynnol cadw at yr oriau ysgol, y diwrnodau na'r tymhorau ysgol, na dilyn amserlen benodedig. Nid yw'n ofynnol i rieni asesu eu plant er y gall ysgolion gynorthwyo gydag arholiadau cyhoeddus o fwrdd CBAC os oes angen gwneud hynny.

#### **I ba oedran y mae addysg yn orfodol?**

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i blentyn gael ei addysgu o ddechrau'r tymor yn dilyn ei bumed pen-blwydd tan y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol y mae'n cael ei ben-blwydd yn 16 oed.

#### **A all fy mhlentyn dal sefyll arholiadau?**

Gallwch drefnu i rai arholiadau CBAC gael eu sefyll fel ymgeisydd allanol mewn amryw o ganolfannau arholi, er enghraifft ysgol neu goleg lleol. Mae manylion llawn am hyn ar wefan CBAC. Gellir cael cymorth ynghylch canolfannau cymeradwy yng Nghasnewydd gan yr Uwch Swyddog Lles Addysg. Rhaid i gostau'r holl ofynion a chofrestru ar gyfer arholiadau gael eu talu gan y rhieni.





## **A allwch addysgu plentyn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig gartref?**

Gall rhieni ddewis addysgu eu plentyn gartref ar yr amod nad ydynt yn mynychu ysgol arbennig. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod lleol yn gofyn i chi sut yr ydych yn bwriadu diwallu ei anghenion arbennig fel yr amlinellir yn ei ddatganiad.

## **Beth os yw fy mhlentyn yn mynychu ysgol arbennig?**

Os yw eich plentyn wedi'i gofrestru gydag ysgol arbennig bydd angen i chi gael caniatâd y Pennaeth a'r Prif Swyddog Addysg cyn dadgofrestru. Bydd gwiriadau'n cael eu cwblhau i sicrhau y gallwch ddarparu ar gyfer ei holl anghenion arbennig.

## **Fel addysgwr gartref, a fyddaf yn cael fy monitro?**

Byddwch. Mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb i sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn darparu addysg lawn-amser, effeithlon ac addas. Nid oes gofyniad cyfreithiol i rieni ymgysylltu â'r awdurdod lleol, ond byddai er budd gorau eich mab/merch i gadw sianeli cyfathrebu'n agored.

## **Beth sy'n digwydd os nad yw'r awdurdod yn hapus gyda fy narpariaeth?**

Yn unol ag Adrannau 437 i 443 Deddf Addysg 1996 gall Cyngor Dinas Casnewydd ymyrryd os yw'n ymddangos nad yw eich plentyn yn cael addysg lawn-amser, effeithlon ac addas. Gellir cyflwyno Gorchymyn Mynychu'r Ysgol. Mae hyn yn caniatáu 15 diwrnod i rieni ddarparu gwybodaeth yn ôl y gofyn i ddangos tystiolaeth o'r gwaith a gwblhawyd i sicrhau bod yr addysg y maen nhw'n ei darparu yn addas. Os bydd rhieni'n methu â bodloni'r awdurdod bod addysg addas yn cael ei darparu, gall fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i rieni gofrestru eu plentyn mewn ysgol brif ffrwd.

## **Beth os bydd rhieni'n newid eu meddwl?**

Os penderfynwch eich bod am i'ch plentyn ddychwelyd i addysg brif ffrwd, cysylltwch â gwasanaeth derbyn i ysgolion Cyngor Dinas Casnewydd.

## **A yw addysgu hyblyg yn opsiwn?**

Bydd yr awdurdod yn ystyried ceisiadau rhieni i addysgu eu plentyn yn hyblyg. Mae addysgu hyblyg yn galluogi eich plentyn i fynychu'r ysgol am ddyddiau neu wersi penodol ar sail ran-amser. Bydd y trefniant hwn yn cael ei drafod gyda'r pennaeth.

## **Ydych chi'n cwblhau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar gyfer darpar addysgwyr cartref?**

Nac ydyn. Os bydd rhiant yn dewis cyflogi tiwtor i ddarparu addysg gartref yna'r rhiant sy'n gyfrifol am sicrhau bod y person yn berson addas i gael mynediad at ei blentyn. Cyfrifoldeb y rhieni yw cael geiradon priodol a sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau i sicrhau bod yr holl weithdrefnau diogelu ar waith.



## **A all fy mab/merch gael mynediad at weithgareddau allgyrsiol?**

Mae gan ddysgwyr a addysgir gartref hawl i gael cymorth a darpariaeth gan gynnwys gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol (gan gynnwys cyrsiau achrededig); cyfleoedd hamdden, chwaraeon a diwylliannol; cyngor ac arweiniad; a chymryd rhan mewn prosesau ymgynghori perthnasol



## ATODIAD 2

Gwybodaeth cyswllt am addysg ddewisol yn y cartref

### **Cysylltiadau yn yr Awdurdod Lleol:**

Pennaeth Addysg Cynorthwyol (Ymgysylltu a Dysgu)

Gwasanaethau Addysg

Canolfan Ddinesig

Cyngor Dinas Casnewydd

NP20 4UR

Ffôn: 01633 656656

Uwch Swyddog Lles Addysg

Gwasanaethau Addysg

Canolfan Ddinesig

Cyngor Dinas Casnewydd

NP20 4UR

Ffôn: 01633 656656

Awdur: Andrew Powles

Dyddiad: Gorffennaf 2017

Diweddarwyd gan Hayley Thomas

Dyddiad Adolygu: Awst 2020

Dyddiad Adolygu:Awst 2021

Fersiwn: 1.6

